Abram (Abraham) yn symud i Ganaan

Genesis 11: 27 - 13: 4

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Genesis 11: 27 - 13: 4		
1	Roedd Abram a'i wraig Sarai yn byw yn Ur yn Babilonia (Irac). Dwedodd Duw wrtho i adael Ur a mynd ar daith hir i wlad Canaan.		
2	Dwedodd Duw wrth Abram, "Bydda i'n dy wneud di yn genedl fawr, ac yn dy fendithio di, a byddi'n enwog. Bydda i'n bendithio'r rhai sy'n dy fendithio di ac yn melltithio unrhyw un sy'n dy fychanu di."		
3	Felly dyma Abram yn mynd, fel roedd yr ARGLWYDD wedi dweud wrtho. Aeth Abram â'i wraig Sarai gydag e, a Lot ei nai a Tera ei dad.		

4	Dyma nhw'n cyrraedd Haran ac yn setlo yno. Dyna lle buodd Tera farw.	
5	Erbyn hyn roedd Abram yn 75 mlwydd oed. Dwedodd Duw wrtho i symud yn ei flaen i wlad Canaan.	
6	Felly dyma Abram yn mynd i wlad Canaan, fel roedd Duw wedi dweud wrtho.	
7	Pan gyrhaeddon nhw yno dyma Abram yn teithio drwy'r wlad ac yn cyrraedd derwen More, oedd yn lle addoli yn Sichem.	
8	Dyma'r ARGLWYDD yn ymddangos i Abram, ac yn dweud, “Dw i'n mynd i roi'r wlad yma i dy ddisgynyddion (dy blant a plant dy blant) di.”	

9	A cododd Abram allor i'r ARGLWYDD a'i addoli yno.	
10	Wedyn symudodd Abram yn ei flaen tua'r de a gwersylla yn y bryniau sydd i'r dwyrain o Bethel.	
11	Cododd allor yno hefyd, ac addoli'r ARGLWYDD.	
12	Roedd yna newyn yn y wlad, ac roedd bwyd yn brin.	
13	Felly dyma Abram yn mynd i lawr i'r Aifft i chwilio am fwyd yno.	

14	Pan oedd bron cyrraedd yr Aifft, dwedodd wrth ei wraig Sarai, “Ti'n ddynes hardd iawn. Pan fydd yr Eifftiaid yn dy weld di byddan nhw'n dweud, ‘Ei wraig e ydy hi’, a byddan nhw yn fy lladd i er mwyn dy gael di. Dywed wrthyn nhw mai fy chwaer i wyt ti.”	
15	Gwelodd yr Eifftiaid fod Sarai yn ddynes hardd iawn. Dwedodd swyddogion y Pharo wrtho mor hardd oedd hi. Felly cymerodd y Pharo hi i fod yn un o'i harîm. Rhoddodd ddefaid a gwartheg, asennod, caethweision a morynion, a chamelod i Abram.	
16	Ond am fod y Pharo wedi cymryd Sarai, gwraig Abram, iddo'i hun, dyma'r ARGLWYDD yn anfon afiechydon ofnadwy arno fe a phawb yn ei balas. Galwodd y Pharo am Abram, a dweud wrtho, “Pam rwyt ti wedi gwneud hyn i mi? Pam wnest ti ddim dweud mai dy wraig di oedd hi? Dyma hi, dy wraig, yn ôl i ti. Cymer hi a dos o ngolwg i!”	
17	Rhoddodd y Pharo orchymyn i'w filwyr daflu Abram, a'i wraig a phopeth oedd ganddo, allan o'r wlad.	

18	Felly dyma Abram yn gadael yr Aifft, gyda'i wraig a phopeth oedd ganddo a Lot.	
19	Teithiodd yn ei flaen bob yn dipyn drwy'r Negef ac i fyny i Bethel. Dyna ble roedd wedi codi allor i'r ARGLWYDD, ac wedi addoli'r ARGLWYDD.	
20	Setlodd Abram yng ngwlad Canaan - y tir roedd Duw wedi ei addo iddo ac i'w blant. Ond, roedd o a Sarai yn heneiddio, a doedd ganddyn nhw ddim plant.	
21	Mae clipiau ffilm Cymraeg am fywyd Abram i'w cael ar wefan www.beibl.net Cyfieithwyd gan www.beib.net	